



# Sut i gymryd eich pensiwn

## Canllaw cam wrth gam

- Dechreuwch gynllunio o leiaf 10 mlynedd cyn cael mynediad at eich pensiwn.
- Cymharwch yr opsiynau ar gyfer cymryd eich pensiwn.
- Mynnwch arweiniad am ddim a diduedd.
- Dewch o hyd i gynghorydd ariannol rheoleiddiedig i gael cyngor personol.

## **Wrthi'n eich helpu i reoli eich arian heddiw ac ar gyfer y dyfodol**

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, rydym yn cynnig arweiniad clir sy'n gyflym i'w ddarganfod, yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gymorth arnoch.

Gallwn ni eich helpu i:

- delio â dyled
- deall eich opsiynau pensiwn
- lleihau eich gwariant a chronni cynilion
- llywio digwyddiadau bywyd megis colli swydd, tor-perthynas, ymddeol neu brofedigaeth
- cyllidebu ar gyfer biliau neu bryniannau mawr
- dysgu am forgeisi a rhentu
- cael gwybod am fudd-daliadau a hawliadau ychwanegol.

Chwiliwch am HelpwrArian: [\*\*moneyhelper.org.uk/cy\*\*](https://moneyhelper.org.uk/cy)

**Canllawiau diduedd am ddim**  
ar-lein | dros y ffôn

Darparwyd gan





# I bwy mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut allwch chi gymryd eich pensiwn os ydych chi'n:

- byw yn y DU, ac
- os oes gennych bensiwn **cyfraniadau diffiniedig** yn y DU – y pensiynau mwyaf diweddar yw'r math hwn oni bai eich bod yn gweithio yn y sector cyhoeddus, fel addysg, y GIG neu'r Lluoedd Arfog.

Nid yw'r canllaw hwn **yn cwmpasu**:

- **pensiynau budd-daliadau diffiniedig** – a elwir yn aml yn gynlluniau cyflog terfynol neu gyfartaledd gyrfa a sy'n nodweddiadol yn y sector cyhoeddus
- **pensiynau cyfraniadau diffiniedig cyfunol** – ar hyn o bryd mae gan y Post Brenhinol yr unig gynllun awdurdodedig yn y DU.

Os oes gennych y mathau hyn o bensiwn, gallwch ddod o hyd i gymorth am ddim ar **[moneyhelper.org.uk/ymddeol](https://moneyhelper.org.uk/ymddeol)** neu cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar y clawr cefn.

Os yw eich pensiwn wedi'i leoli dramor neu os ydych chi'n byw y tu allan i'r DU (neu os ydych chi'n bwriadu gwneud hynny), bydd cyngor ariannol trawsffiniol rheoleiddiedig yn eich helpu i ddeall eich opsiynau yn lle hynny (gweler tudalen 27).

## **Ddim yn siŵr pa fath o bensiwn sydd gennych chi?**

Gallwch ofyn i'ch darparwr pensiwn gadarnhau neu fynd i **[moneyhelper.org.uk/math-o-bensiwn](https://moneyhelper.org.uk/math-o-bensiwn)** i ddefnyddio ein hofferyn am ddim.

## **Dechreuwch gynllunio tua 10 mlynedd cyn cymryd eich pensiwn**

Mae'n syniad da dechrau cynllunio sut a phryd i gymryd eich pensiwn o leiaf 10 mlynedd cyn yr hoffech ei gael.

Mae hyn oherwydd y gallech elwa drwy wneud newidiadau'n gynnar, gan gynnwys newid faint rydych chi'n ei gynilo a sut mae eich pensiwn yn cael ei fuddsoddi. Mae'r canllaw hwn yn egluro'r camau y gallwch eu cymryd a phryd.

## Mynnwch apwyntiad am ddim i esbonio eich opsiynau pensiwn

Yn ogystal â'r canllaw hwn, rydym hefyd yn cynnig apwyntiadau Pension Wise am ddim i esbonio sut a phryd y gallwch gymryd eich pensiwn. Gallwch naill ai:



- dechrau ar-lein ar unrhyw adeg
- archebu dyddiad ac amser gydag un o'n harbenigwyr pensiwn.

I gael eich apwyntiad am ddim, gweler tudalen 25 neu Ewch i **[moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise](https://moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise)**

Ar ôl apwyntiad, mae 94% o'n cwsmeriaid yn fodlon ac mae 93% yn argymhell Pension Wise i eraill.

## Cael cyngor personol gan gynghorydd ariannol

Mae'r canllaw hwn yn egluro'ch opsiynau i'ch helpu i benderfynu beth sy'n iawn i chi. Am gyngor wedi'i deilwra neu argymhellion cynnyrch, bydd angen i chi dalu am gyngor ariannol rheoleiddiedig.

Mae pobl sy'n derbyn cyngor ariannol fel arfer yn adeiladu mwy o gyfoeth na'r rhai nad ydynt yn ei gael yn y tymor hir, hyd yn oed ar ôl ystyried ffioedd. Mae hyn yn seiliedig ar ymchwil gan y Ganolfan Hirhoedledd Ryngwladol.

I ddysgu rhagor, gweler tudalen 27 neu Ewch i **[moneyhelper.org.uk/cyngor-ymddeoliad](https://moneyhelper.org.uk/cyngor-ymddeoliad)**

# Sut i gymryd eich pensiwn: cam wrth gam

|       |                                                                                            |           |
|-------|--------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| Cam 1 | Deall sut mae eich pensiwn yn gweithio, gan gynnwys dod o hyd i bensiynau hen neu golledig | Tudalen 4 |
|-------|--------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|

## Tua 10 mlynedd cyn yr hoffech gymryd eich pensiwn

|        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |            |
|--------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------|
| Cam 2  | Gwirio'r oedran y gallwch chi gymryd eich pensiwn                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Tudalen 6  |
| Cam 3  | Gwirio eich incwm pensiwn amcangyfrifedig                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Tudalen 8  |
| Cam 4: | Cymharu yr opsiynau ar gyfer cymryd eich pensiwn                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Tudalen 10 |
|        | <ul style="list-style-type: none"><li>● Gadael eich pensiwn wedi'i fuddsoddi ac ymddeolwch yn hwyrach</li><li>● Cymryd incwm pryd bynnag y bydd ei angen arnoch (tynnu pensiwn i lawr)</li><li>● Cael incwm rheolaidd gwarantedig (blwydd-dal)</li><li>● Cymryd cyfandaliadau lluosog</li><li>● Cymryd eich pensiwn cyfan mewn un taliad</li><li>● Cyfuno'r opsiynau hyn</li></ul> |            |

|        |                                                    |            |
|--------|----------------------------------------------------|------------|
| Cam 5: | Ystyried pa opsiynau sy'n cyd-fynd â'ch cynlluniau | Tudalen 14 |
|--------|----------------------------------------------------|------------|

## Tua chwe mis i flwyddyn cyn i chi gymryd eich pensiwn

|        |                                                     |            |
|--------|-----------------------------------------------------|------------|
| Cam 6: | Chwilio o gwmpas i ddod o hyd i'r fargen orau       | Tudalen 19 |
| Cam 7: | Dechrau cymryd eich pensiwn pan fyddwch chi'n barod | Tudalen 22 |

## Ble i gael cymorth a chyngor gyda'ch dewisiadau

|                                                              |            |
|--------------------------------------------------------------|------------|
| Cael apwyntiad Pension Wise am ddim i gael arweiniad diduedd | Tudalen 25 |
| Ystyried talu am gyngor ariannol rheoleiddiedig              | Tudalen 27 |

# Cam 1: Deall sut mae eich pensiwn yn gweithio

Dechreuwch drwy ddysgu sut mae eich pensiwn yn gweithio a sicrhau eich bod chi'n gwybod ble mae eich holl bensiynau.

## Sut mae pensiynau cyfraniadau diffiniedig yn gweithio

Mae pensiwn cyfraniadau diffiniedig yn cronni 'cronfa' o arian i dalu incwm ymddeoliad i chi. Weithiau fe'u gelwir yn bensiynau prynu arian.

Bydd faint o arian sydd yn eich cronfa pensiwn pan fyddwch yn ymddeol yn dibynnu ar:

- faint sy'n cael ei dalu i mewn
- am ba hyd rydych yn cynilo
- pa mor dda mae eich buddsoddiadau wedi perfformio
- taliadau a ffioedd y darparwr pensiwn.

Mae eich pensiwn yn fuddsoddiad, felly gall gwerth eich pensiwn godi neu ostwng – ond dylai dyfu dros amser. Po hwyaŷ y byddwch chi'n cynilo, y mwyaŷ o amser sydd gan eich arian i dyfu.

Fel arfer gallwch ddewis sut i gymryd eich arian, gan gynnwys fel incwm rheolaidd gwarantedig neu symiau lluosog pan fydd eu hangen arnoch. Mae'r canllaw hwn yn esbonio eich holl opsiynau.

## Casglwch wybodaeth am eich holl gynlluniau pensiwn

Bydd sut a phryd y gallwch chi gymryd eich pensiwn yn dibynnu ar reolau, nodweddion a'r opsiynau maen nhw'n eu cynnig ar gyfer cymryd arian eich cynllun pensiwn. Gall y rhain amrywio rhwng cynlluniau.

Mae'n syniad da:

- casglu unrhyw wybodaeth y mae eich darparwr wedi'i hanfon atoch
- gwneud yn siŵr bod gennych gyfriflen gyfredol neu mewngofnodwch i gyfrif ar-lein eich darparwr i weld eich amcangyfrif diweddaraf
- gofyn i'ch darparwr ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am eich cynllun.

## Dod o hyd i bensiynau hen neu goll

Os ydych chi wedi colli cysylltiad â darparwr pensiwn, ni fyddan nhw'n gwybod sut i'ch talu pan fyddwch chi'n ymddeol. Mae hyn yn golygu y gallech golli allan ar incwm ymddeoliad yr ydych yn gymwys i'w gael.

Os na allwch ddod o hyd i fanylion cynllun pensiwn, gall y Gwasanaeth Orlhain Pensiynau eich helpu i ddod o hyd i'w manylion cyswllt.

Gallwch:

- Ewch i **[gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn](https://gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn)**
- ffoniwch 0800 731 0175 neu +44 191 218 7777 os ydych chi y tu allan i'r DU.

Mae'r llinellau ar agor rhwng 10am a 3pm amser y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Am gymorth cam wrth gam, Ewch i **[moneyhelper.org.uk/dod-o-hyd-i-bensiynau-goll](https://moneyhelper.org.uk/dod-o-hyd-i-bensiynau-goll)**

Gallwch hefyd gysylltu â ni am gymorth gan ddefnyddio'r manylion ar y clawr cefn.



# Cam 2: Gwirio'r oedran y gallwch chi gymryd eich pensiwn

Fel arfer, y cynharaf y gallwch chi dynnu arian o'ch pensiwn yw 55 oed. Gelwir hyn yn oedran pensiwn isafswm arferol (NMPA).

Ond efallai y byddwch chi'n gallu cymryd eich pensiwn cyn 55 oed os:

- mae angen i chi ymddeol yn gynnar oherwydd iechyd gwael, neu
- mae eich cynllun pensiwn yn rhestru oedran iau, a elwir yn aml yn oedran pensiwn gwarchodedig.

## **O 6 Ebrill 2028, mae'r oedran pensiwn isaf arferol yn codi i 57 oed**

Os ydych chi'n 55 neu'n 56 oed ar y dyddiad hwn, efallai y byddwch chi'n colli mynediad at eich pensiwn nes i chi droi'n 57 oed – hyd yn oed os ydych chi eisoes wedi cymryd arian.

Bydd eich darparwr pensiwn yn gallu esbonio'r rheolau sy'n berthnasol i chi.

## **Fel arfer, byddwch yn cael llai os cymerwch eich pensiwn yn gynnar**

Mae'r rhan fwyaf o bensiynau wedi'u cynllunio i dalu allan naill ai ar:

- eich oedran pensiwn arferol (NPA) – pryd mae eich darparwr yn disgwyl i chi ymddeol
- dyddiad ymddeol a ddewiswyd (SRD) – os ydych chi wedi dweud wrth eich darparwr pensiwn am ddyddiad gwahanol.

Mae hyn yn golygu bod llai o arian fel arfer yn cael ei roi i chi os cymerwch eich pensiwn cyn eich oedran pensiwn arferol neu'ch dyddiad ymddeol a ddewiswyd, gan fod llai o amser i gronni cronfa o arian.

Gallwch ddod o hyd i'ch oedran pensiwn arferol yn nogfennau eich cynllun neu drwy ofyn i'ch darparwr. Mae'n amrywio rhwng cynlluniau, ond yn aml mae tua 60 oed, 65 neu'r un oedran â'ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth yw'r cynharaf y gallwch hawlio'ch Pensiwn y Wladwriaeth. I wirio eich un chi, Ewch i **[gov.uk/state-pension-age](https://gov.uk/state-pension-age)**

### **Gallai sgamwyr gynnig cael mynediad at eich pensiwn cyn 55 oed**

Os byddwch chi'n derbyn galwad oer, neges destun, e-bost neu ymweliad yn dweud wrthyddych chi y gallwch chi gael mynediad at eich pensiwn cyn 55 oed, mae'n debygol ei fod yn sgam.

Peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth iddyn nhw na cheisio cymryd arian o'ch pensiwn. Gallech gollu'ch arian ac wynebu bil treth mawr.

Os ydych chi'n poeni am sgamiau, gallwch ffonio ein huned troseddau ariannol a sgamiau ar 0800 011 3797.

Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 5pm amser y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ar gau ar wyliau banc.



# Cam 3: Gwirio eich incwm pensiwn amcangyfrifedig

Mae penderfynu pryd i ymddeol yn aml yn dibynnu ar pryd y gallwch chi fforddio rhoi'r gorau i weithio.

Fel arfer gallwch ddod o hyd i amcangyfrif o'ch incwm pensiwn drwy:

- mewngofnodi i gyfrif ar-lein eich darparwr
- gwirio datganiadau pensiwn rydych chi wedi'u derbyn
- cysylltu â'ch darparwr.

## Gwiriwch sut mae eich incwm pensiwn amcangyfrifedig wedi'i gyfrifo

Gwiriwch bob amser sut mae eich incwm pensiwn amcangyfrifedig wedi'i gyfrifo. Mae llawer o ddarparwyr yn ei seilio ar:

- yr incwm sy'n dechrau pan fyddwch chi'n cyrraedd oedran pensiwn arferol (NPA) eich cynllun
- rydych chi'n trosi'r holl arian yn incwm rheolaidd gwarantedig, a elwir yn brynu blwydd-dal.

Mae hyn yn golygu y gallech gael swm gwahanol os ydych:

- yn cymryd eich arian cyn neu ar ôl eich oedran pensiwn arferol
- eisiau cymryd eich arian mewn ffordd wahanol yn lle prynu blwydd-dal.

## Gall gwerth eich pensiwn godi a gostwng

Dim ond amcangyfrif faint y byddwch chi'n ei gael y gall eich darparwr pensiwn ei wneud – fel arfer ni allant roi ffigur union i chi nes i chi ddechrau cymryd eich pensiwn.

Mae hyn oherwydd bod y swm y bydd eich pensiwn yn ei dalu yn dibynnu ar:

- faint sy'n cael ei dalu i mewn
- am ba hyd rydych yn cynilo
- sut rydych chi'n dewis cymryd eich arian
- pa mor dda y mae eich arian a fuddsoddwyd wedi perfformio
- y taliadau a dalwyd gennych.

## Gwiriwch a fydd eich cyfanswm incwm ymddeoliad yn talu eich holl gostau

I helpu i gyfrifo a yw incwm eich pensiwn yn ddigon i roi ymddeoliad cyfforddus i chi, mae'n syniad da:

1. Ychwanegu yr holl incwm ymddeoliad rydych chi'n bwriadu ei gael, gan gynnwys Pensiwn y Wladwriaeth.
2. Rhestru'r holl gostau rydych chi'n debygol o fod yn eu hwynebu o hyd, gan gynnwys biliau'r cartref a morgais neu rent.
3. Cymharwch y ddau ffigur i weld faint o arian sydd gennych ar ôl – os o gwbl.

I helpu i gyfrifo cyfanswm eich incwm pensiwn, Ewch i **[moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-pensiwn](http://moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-pensiwn)**

## Chwiliwch am ffyrdd o gynyddu'ch pensiwn

Mae yna lawer o ffyrdd y gallwch gynyddu'ch incwm ymddeoliad, gan gynnwys:

- talu mwy i mewn i'ch pensiwn – gallai eich cyflogwr gyfateb eich cyfraniadau
- gwirio eich bod yn cael yr holl ryddhad treth rydych chi'n gymwys i'w gael – nid yw bob amser yn awtomatig os ydych yn drethdalwr cyfradd uwch
- llenwi bylchau yn eich cofnod Yswiriant Gwladol i wneud yn siŵr eich bod ar y trywydd iawn i gael y Pensiwn y Wladwriaeth uchaf.

Am ragor o wybodaeth, Ewch i **[moneyhelper.org.uk/hwb-pensiwn](http://moneyhelper.org.uk/hwb-pensiwn)**

I wirio faint o Bensiwn y Wladwriaeth rydych chi ar y trywydd iawn i'w gael a ffyrdd posibl o'i gynyddu, gallwch:

- mynd i **[gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth](http://gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth)**
- ffoniwch ganolfan Pensiwn y Dyfodol ar 0800 731 0175 neu +44 191 218 3600 os ydych chi y tu allan i'r DU.

Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 6pm amser y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

## Adolygwch weddill eich cyllid

Cymerwch amser i edrych ar eich holl gyllid, gan gynnwys sut y gallech:

- talu unrhyw ddyledion cyn i chi ymddeol, fel morgais
- sefydlu atwrneiaeth fel y gall rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo reoli eich iechyd a'ch cyllid os na allwch chi ei wneud
- gwneud neu ddiweddarau eich ewyllys
- diweddarau eich ffurflen mynegiant dymuniad, sy'n dweud wrth eich darparwr pensiwn pwy hoffech iddo etifeddu eich pensiwn neu fudd-daliadau marwolaeth.

# Cam 4: Cymharu'r opsiynau ar gyfer cymryd eich pensiwn

Mae pensiynau cyfraniadau diffiniedig yn cronni cronfa o arian i chi ei ddefnyddio yn eich ymddeoliad. Mae hyn yn golygu y gallwch ddewis sut a phryd yr hoffech ei ddefnyddio.

## Eich opsiynau – cipolwg

Fel arfer mae gennych 6 opsiwn i ddewis rhyngddynt:

1. **Gohirio cymryd eich pensiwnnes** bod ei angen arnoch
2. **Cymryd incwm hyblyg** pryd bynnag y bydd ei angen arnoch, tra bod y gweddill yn aros wedi'i fuddsoddi – a elwir yn dynnu pensiwn i lawr.
3. **Cael incwm rheolaidd gwarantedig** trwy brynu blwydd-dal.
4. **Cymryd cyfandaliadau arian parod** pan fyddwch eu hangen.
5. **Cymryd eich pensiwn mewn un taliad.**
6. **Cyfuno'r opsiynau hyn.** Er enghraifft, gallech ddefnyddio tynnu pensiwn i lawr i gymryd incwm pan fydd ei angen arnoch am ychydig flynyddoedd a phrynu blwydd-dal yn ddiweddarach.

## Sut mae pob opsiwn yn cael ei drethu

Os ydych chi'n defnyddio **tynnu pensiwn i lawr** neu'n prynu **blwydd-dal**, fel arfer gallwch chi ddewis cymryd hyd at 25% o'ch pensiwn fel swm cyfandaliad di-dreth ymlaen llaw. Cofiwch, po fwyaf a gymerwch nawr, y lleiaf fydd gennych i roi incwm i chi yn ddiweddarach. Ar ôl hyn, caiff yr incwm a gewch o dynnu pensiwn i lawr neu flwydd-dal ei drethu yn seiliedig ar reolau Treth Incwm arferol.

Os cymerwch eich pensiwn fel **un cyfandaliad neu fwy**, telir hyd at 25% o bob swm a dynnir yn ôl yn ddi-dreth. Caiff y gweddill ei drethu yn seiliedig ar reolau Treth Incwm arferol. Mae uchafswm y gallwch ei gymryd yn ddi-dreth o'ch pensiynau, a elwir yn lwfans swm cyfan (LSA). I'r rhan fwyaf o bobl, mae hyn yn £268,275.

### Cael arweiniad am ddim a diduedd ar eich opsiynau

Gyda chymaint o opsiynau ar gyfer cymryd eich pensiwn, gall fod yn anodd gwybod pa un sy'n iawn.

Mae apwyntiad Pension Wise am ddim yn caniatáu i chi siarad ag un o'n harbenigwyr pensiwn neu archwilio'ch opsiynau ar-lein ar eich cyflymder eich hun.

EWCH I [moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise](https://moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise) neu gweler tudalen 25.

## Opsiw 1: Gohirio cymryd eich pensiwn

Nid oes rhaid i chi ddechrau cymryd arian o'ch pensiwn pan fyddwch chi'n cyrraedd oedran pensiwn arferol (NPA) eich cynllun neu'ch dyddiad ymddeol dewisol (SRD). Gallwch adael eich arian wedi'i fuddsoddi yn eich cronfa nes bydd ei angen arnoch – bydd llawer o gynlluniau'n caniatáu i chi ohirio cymryd eich pensiwn hyd at 75 oed.

Gall hyn olygu bod gan eich pensiwn fwy o amser i aros wedi'i fuddsoddi ac o bosibl tyfu, yn ddi-dreth. Gallai hefyd roi incwm uwch i chi pan fyddwch chi'n ei gymryd, gan y bydd yn talu allan dros gyfnod byrrach.

Ond mae gan rai cynlluniau gosbau os na fyddwch chi'n cymryd yr arian erbyn dyddiad penodol. Felly **dywedwch wrth eich darparwr bob amser os ydych chi'n ystyried gohirio cymryd eich pensiwn.**

## Opsiw 2: Cymryd incwm hyblyg pryd bynnag y bydd ei angen arnoch (tynnu pensiwn i lawr)

Mae tynnu pensiwn i lawr yn caniatáu i chi gael mynediad at rywfaint o'ch arian pensiwn tra'n gadael y gweddill wedi'i fuddsoddi. Gallwch benderfynu faint i'w gymryd allan a phryd, a allai fod yn incwm rheolaidd neu'n gyfandaliadau yn ôl yr angen.

Gallwch naill ai ddewis symud eich pensiwn i dynnu i lawr:

- mewn un tro, neu
- yn raddol dros amser – a elwir yn dynnu i lawr graddol neu rannol.

Pan fyddwch chi'n tynnu'ch pensiwn i gyd neu ran ohono i lawr, gallwch ddewis cymryd hyd at 25% o'r swm hwnnw'n ddi-dreth. Tra bod eich arian wedi'i fuddsoddi, gall gwerth eich pensiwn barhau i godi a gostwng nes i chi ei dynnu allan.

## Opsiw 3: Cael incwm rheolaidd gwarantedig (blwydd-dal)

Gallwch ddefnyddio rhywfaint neu'ch pensiwn cyfan i brynu blwydd-dal i roi incwm rheolaidd gwarantedig i chi, naill ai ar gyfer:

- gweddill eich oes – a elwir yn flwydd-dal oes
- cyfnod y cytunwyd arno rhwng 1 a 40 mlynedd – a elwir yn flwydd-dal tymor penodol.

Mae faint y bydd blwydd-dal yn ei dalu yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys eich oedran, eich iechyd a chyfraddau'r blwydd-dal ar y pryd.

I weld faint o incwm ymddeol y gallech ei gael o flwydd-dal:

- Ewch i [moneyhelper.org.uk/cy/guaranteed-income](https://moneyhelper.org.uk/cy/guaranteed-income)
- gwiriwch a yw eich cynllun pensiwn yn cynnig cyfraddau blwydd-dal gwarantedig – gallai'r rhain fod yn well nag y gallwch eu cael gan ddarparwyr eraill.

Wrth brynu blwydd-dal, fel arfer gallwch ddewis:

- defnyddio'r holl arian yn eich cronfa bensiwn heb gymryd dim fel swm cyfandaliad di-dreth
- cymryd hyd at 25% fel swm cyfandaliad di-dreth yn gyntaf a naill ai:
  - defnyddio'r gweddill i brynu blwydd-dal
  - defnyddio rhywfaint i brynu blwydd-dal a chadw rhywfaint wedi'i fuddsoddi
  - cadw'r gweddill wedi'i fuddsoddi a phrynu blwydd-dal yn ddiweddarach.

Cofiwch, nid **oes rhaid i chi gymryd y 25% llawn fel swm cyfandaliad di-dreth**. Po fwyaf a gymerwch, y lleiaf fydd gennych i roi incwm i chi.

Os ydych chi'n prynu blwydd-dal gan ddefnyddio pensiwn rydych chi eisoes wedi cymryd arian ohono, fel arfer ni allwch gymryd swm cyfandaliad di-dreth ymlaen llaw – oni bai eich bod wedi cymryd UFPLS yn unig (gweler opsiwn 4). Mae hyn yn dal yn wir os gwnaethoch ddewis peidio â chymryd cyfandaliad di-dreth pan wnaethoch gael mynediad at y pensiwn hwnnw gyntaf.

Os dewiswch brynu blwydd-dal, fel arfer ni allwch newid eich meddwl ar ôl i'r cyfnod oeri ddod i ben.

## Opsiw 4: Cymryd eich pensiwn fel cyfandaliadau lluosog

Gallwch adael eich holl bensiwn wedi'i fuddsoddi a chymryd arian o'ch pensiwn pryd bynnag y bydd ei angen arnoch. Mae hyd at 25% o bob cyfandaliad a gymerwch yn ddi-dreth a chaiff y gweddill ei drethu ynghyd ag unrhyw enillion eraill.

Gan fod eich arian yn dal wedi'i fuddsoddi, gall gwerth eich pensiwn barhau i godi a gostwng nes i chi ei dynnu allan. Gelwir yr opsiwn hwn yn Gyfandaliad Pensiwn Cronfeydd Heb eu Crisialu (UFPLS).

## Opsiw 5: Cymryd eich pensiwn mewn un taliad

Gallwch gymryd yr holl arian yn eich pensiwn mewn un taliad, felly does dim rhan ohono'n aros wedi'i fuddsoddi. Telir hyd at 25% yn ddi-dreth a chaiff y gweddill ei drethu ynghyd ag unrhyw enillion eraill.

Mae hyn yn golygu **y gallech dalu mwy o Dreth Incwm ar yr arian nag opsiynau eraill**, gan y byddai'n cael ei dalu mewn un flwyddyn dreth a gallai eich gwrthio i fand treth uwch.

## Opsiwn 6: Cyfuno'r opsiynau hyn

Fel arfer gallwch ddewis mwy nag un ffordd o gymryd eich pensiwn. Mae rhai darparwyr hefyd yn cynnig cynhyrchion sy'n cymysgu 2 opsiwn neu fwy.

Er enghraifft, gallech chi:

1. Cymryd cyfandaliad di-dreth yn 60 oed.
2. Cadw'r gweddill wedi'i fuddsoddi.
3. Cymryd cyfandaliadau arian parod pan fyddwch eu hangen.
4. Trosi'r hyn sydd ar ôl yn incwm rheolaidd gwarantedig yn 65 oed.

Os oes gennych nifer o bensiynau cyfraniadau diffiniedig, gallwch ddewis gwahanol opsiynau ar gyfer pob un. Er enghraifft, gallech drosi un yn incwm rheolaidd gwarantedig a gadael y llall wedi'i fuddsoddi nes eich bod am gymryd cyfandaliadau.

### Efallai y bydd eich incwm pensiwn yn cael ei hawlio i ad-dalu dyledion

Fel arfer, ni all unrhyw un y mae arnoch arian iddo hawlio unrhyw arian sydd yn eich pensiwn, hyd yn oed os ydych wedi cael eich datgan yn fethdalwr neu os oes gennych gynllun ad-dalu dyledion ffurfiol.

Ond os byddwch chi'n tynnu arian allan o'ch pensiwn, efallai y dywedir wrthydd chi am ei ddefnyddio i wneud ad-daliadau rheolaidd neu gellid hawlio'r swm cyfan.

Os ydych chi'n poeni am ddyled, siaradwch â chynghorydd dyled am ddim cyn cymryd eich pensiwn.

Gallwch:

- Ewch i [moneyhelper.org.uk/cy/debt](https://moneyhelper.org.uk/cy/debt) i ddod o hyd i gyngor ar ddyled am ddim yn eich ymyl
- ffoniwch ni ar 0800 011 3797 neu +44 20 7932 5780 os ydych chi y tu allan i'r DU.

Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 5pm amser y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ar gau ar wyliau banc.



# Cam 5: Ystyried pa opsiynau sy'n cyd-fynd â'ch cynlluniau

Er mwyn helpu i gyfrifo pa opsiynau a allai gyd-fynd â'ch cynlluniau ymddeol – a phryd y gallech ddechrau cymryd eich pensiwn – dyma rai cwestiynau allweddol i'w hystyried.

Bydd apwyntiad Pension Wise am ddim hefyd yn eich helpu i ateb y cwestiynau hyn. Ewch i [moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise](https://moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise) neu gweler tudalen 25.

## Pa opsiynau mae fy narparwr pensiwn yn eu cynnig?

Efallai na fydd rhai darparwyr yn cynnig yr holl opsiynau, neu efallai bod ganddyn nhw rai cyfyngiadau neu amodau. Bydd eich darparwr yn gallu dweud wrthyb beth sydd ar gael i chi.

Gallwch wedyn gymharu hyn â'r hyn y gall darparwyr eraill ei gynnig i chi, gan y gallech drosglwyddo'ch pensiwn i ddarparwr gwahanol i gael bargaen well. Dysgwch ragor yn [moneyhelper.org.uk/trosglwyddiadau-pensiwn](https://moneyhelper.org.uk/trosglwyddiadau-pensiwn)

## A oes gan fy nghynllun pensiwn unrhyw nodweddion arbennig gwerthfawr?

Mae rhai pensiynau'n cynnwys nodweddion arbennig gwerthfawr a allai gael eu colli os cymerwch arian yn rhy gynnar, yn rhy hwyr neu os ydynt yn cael eu trosglwyddo i ddarparwr arall. Gall hyn effeithio ar faint rydych chi'n ei gael a'ch opsiynau ar gyfer cymryd arian.

Mae nodweddion arbennig yn cynnwys:

- cyfraddau blwydd-dal gwarantedig a all roi incwm uwch na darparwyr eraill
- bonws gydag elw – arian ychwanegol os cymerwch eich pensiwn cyn neu ar ôl dyddiad penodol
- arian parod di-dreth wedi'i ddiogelu – gall hyn ganiatáu i chi gymryd mwy na 25% o'ch pensiwn fel cyfandaliad di-dreth.

Dysgwch ragor yn [moneyhelper.org.uk/nodweddion-arbennig](https://moneyhelper.org.uk/nodweddion-arbennig)

## Sut fydda i'n sicrhau bod yr arian yn parhau?

Bydd blwydd-dal oes yn rhoi incwm rheolaidd gwarantedig i chi, felly rydych yn gwybod faint y byddwch yn ei gael am weddill eich oes. Efallai na fydd hyn yn rhoi'r incwm uchaf posibl i chi, ond mae'n rhoi sicrwydd i chi.

Mae'r holl opsiynau eraill yn golygu y bydd angen i chi gynllunio sut y byddwch chi'n sicrhau bod yr arian yn parhau am eich ymddeoliad cyfan, a allai barhau am dros 20 mlynedd.

Os byddwch chi'n cadw rhywfaint neu'ch holl bensiwn wedi'i fuddsoddi, gall ei werth godi a gostwng nes i chi gymryd yr arian. Mae hyn yn golygu bod y swm y gallwch ei dynnu allan yn uwch neu'n is na'r disgwyl.

Mae gwerth eich pensiwn yn dibynnu ar faint sy'n cael ei dalu i mewn, pa mor dda mae'r buddsoddiadau'n perfformio a'r taliadau y mae eich darparwr yn eu tynnu.

## Faint o dreth fydda i'n ei dalu?

Fel arfer gallwch gymryd hyd at 25% o bob un o'ch pensiynau heb dalu Treth Incwm, cyn belled â'ch bod yn ei gymryd mewn un neu fwy o gyfandaliadau a bod y cyfanswm yn llai na'r lwfans cyfandaliad. Y lwfans cyfandaliad yw £268,275 i'r rhan fwyaf o bobl. Mae hyn yn golygu mai dim ond hyd at y swm hwn y gallwch ei gymryd yn ddi-dreth, hyd yn oed os yw 25% o'ch holl bensiynau yn werth mwy.

Mae'r gweddill, neu unrhyw beth a gymerir fel incwm pensiwn rheolaidd, yn cael ei ychwanegu at unrhyw enillion eraill sydd gennych i gyfrifo faint o Dreth Incwm y byddwch chi'n ei dalu bob blwyddyn dreth (6 Ebrill i 5 Ebrill). Mae hyn yn cynnwys Pensiwn y Wladwriaeth.

I weld y cyfraddau a'r lwfansau Treth Incwm diweddaraf yn:

- Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, Ewch i [gov.uk/cyfraddau-treth-incwm](https://gov.uk/cyfraddau-treth-incwm)
- yr Alban, Ewch i [gov.uk/scottish-income-tax](https://gov.uk/scottish-income-tax)

Os cymerwch arian o'ch pensiwn pan fydd ei angen arnoch chi (naill ai gan ddefnyddio tynnu pensiwn i lawr neu fel cyfandaliadau lluosog), mae hyn yn golygu y gallech ledaenu faint rydych chi'n ei gymryd ar draws gwahanol flynyddoedd treth er mwyn osgoi symud i fand Treth Incwm uwch.

**Enghraifft:** Os ydych chi'n byw yn Lloegr a bod eich cyfanswm incwm yn £50,000, byddai cymryd £5,000 o'ch pensiwn yn yr un flwyddyn dreth yn eich gwrthio i fand treth uwch. Ond arhoswch nes bod blwyddyn dreth newydd yn dechrau ac efallai y byddwch yn talu llai o dreth drwy aros mewn band treth is – yn dibynnu ar gyfanswm eich enillion ar gyfer y flwyddyn dreth honno.

Fel arfer, cyfrifir a thalir Treth Incwm gan eich darparwr pensiwn cyn iddynt dalu unrhyw arian i chi. Mae eich darparwr yn defnyddio eich cod treth i gyfrifo faint o dreth y byddwch chi'n ei thalu.

## A allaf barhau i dalu i mewn i bensiwn?

Mae pob opsiwn yn caniatáu i chi barhau i dalu i mewn i bensiwn, ond efallai y byddwch yn cael llai o ryddhad treth.

Mae rhyddhad treth yn daliad atodol a ychwanegir gan y llywodraeth pan fyddwch chi'n talu i mewn i bensiwn cyn 75 oed. Dyma'r arian y byddech chi fel arfer yn ei dalu mewn Treth Incwm.

Fel arfer gallwch gael rhyddhad treth ar eich holl gyfraniadau pensiwn hyd at y lwfans blyneddol. I'r rhan fwyaf o bobl, mae hyn yn golygu:

- rhaid i'ch cyfraniadau fod yn llai na – neu'n hafal i – y swm rydych chi'n ei ennill (os ydych chi'n ennill llai na £3,600, gallwch chi gael rhyddhad treth ar gyfraniadau hyd at £2,880), a
- rhaid i bob taliad fod yn llai na £60,000 – gan gynnwys cyfraniadau gennych chi, eich cyflogwr a rhyddhad treth.

Ond os cymerwch arian trethadwy o'ch pensiwn cyfraniadau diffiniedig, mae'r lwfans blynyddol o £60,000 fel arfer yn lleihau i £10,000. Gelwir hyn yn lwfans blynyddol prynu arian (MPAA).

Mae hyn yn golygu y bydd yr holl opsiynau ar gyfer cymryd eich pensiwn fel arfer yn sbarduno'r MPAA, oni bai eich bod:

- dim ond yn cymryd hyd at 25% o'ch pensiwn fel cyfandaliad arian parod di-dreth ac:
  - yn gadael y gweddill wedi'i fuddsoddi mewn tynnu pensiwn i lawr, neu
  - yn defnyddio'r gweddill i brynu incwm rheolaidd gwarantedig o flwydd-dal oes
- yn cymryd pensiwn cyfan mewn un tro sy'n werth £10,000 neu lai ac rydych chi'n gofyn i'ch darparwr ddefnyddio'r rheolau cronfa fach.

Mae rheolau cronfa fach yn caniatáu i chi gymryd eich pensiwn cyfan fel un cyfandaliad gyda 25% yn cael ei dalu'n ddi-dreth, heb leihau eich lwfans blynyddol na'ch lwfans cyfandaliad.

Os ydych wedi cymryd cyfandaliad di-dreth, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth ychwanegol hefyd os byddwch yn rhoi rhywfaint neu'r cyfan ohono mewn cynllun pensiwn gwahanol.

Mae hyn oherwydd bod rheolau ailgylchu pensiwn yn eich atal rhag cymryd arian parod di-dreth allan o'ch pensiwn ac yna ei dalu'n ôl i mewn, er mwyn cael mwy o ryddhad treth. Os gwnewch hyn, fel arfer bydd yn rhaid i chi dalu 55% o'r swm a gawsoch fel cyfandaliad di-dreth mewn treth.

## A fydd fy incwm pensiwn yn effeithio ar fy hawl i fudd-daliadau?

Os yw cymryd arian o'ch pensiwn yn cynyddu'ch incwm neu'ch cynilion, gallai hyn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau y mae gennych hawl i'w hawlio.

Gallwch:

- mynd i **[moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-budd-daliadau](https://moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-budd-daliadau)** i wirio beth rydych chi'n gymwys i'w gael a sut y gallai newid pe bai eich incwm neu'ch cynilion yn cynyddu
- siarad â'r swyddfa sy'n talu eich budd-dal
- dod o hyd i gyngor budd-daliadau am ddim a chyfrinachol ar **[advice.local.uk](https://advice.local.uk)**

## A fydd angen i mi newid sut mae fy mhensiwn yn cael ei fuddsoddi?

Mae llawer o ddarparwyr pensiwn yn rheoli ac yn dewis y buddsoddiadau i chi, gan roi eich arian yn eu cronfa ddiofyn fel arfer – cronfa ffordd o fyw neu gronfa dyddiad targed yn aml.

Fel arfer, mae hyn yn golygu bod eich arian yn cael ei symud i ffwrdd o gronfeydd marchnad stoc risg uwch po agosaf y byddwch chi at oedran pensiwn arferol eich cynllun neu'ch dyddiad ymddeol dewisol. Mae hyn yn digwydd gan fod eich darparwr yn cymryd yn ganiataol y byddwch yn cymryd eich holl arian pensiwn ar y pwynt hwnnw, heb adael dim wedi'i fuddsoddi.

Os ydych chi am adael unrhyw ran o'ch pensiwn wedi'i fuddsoddi ar ôl y pwynt hwn (megis tynnu pensiwn i lawr, cymryd cyfandaliadau lluosog neu ymddeol yn ddiweddarach), mae

hyn yn golygu y gallech golli twf buddsoddiad trwy gadw'ch arian yng nghronfa ddiofyn eich darparwr.

Fel arfer, bydd eich darparwr pensiwn yn cynnig amrywiaeth o gronfeydd eraill y gallwch ddewis rhyngddynt, gan gynnwys yr opsiwn i ledaenu eich arian dros nifer o gronfeydd. Gallech hefyd ystyried talu cynghorydd ariannol am gyngor ar sut i fuddsoddi eich arian (gweler tudalen 27).

Os penderfynwch dynnu eich pensiwn i lawr, mae gennych hefyd yr opsiwn o ddewis llwybr buddsoddi. Mae hwn yn fuddsoddiad parod sy'n cysylltu â'ch cynlluniau a'ch dewisiadau ymddeol. I gymharu llwybrau buddsoddi, Ewch i **[moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-tynnu-lawr-pensiwn](https://moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-tynnu-lawr-pensiwn)**

I gael gwybod mwy, Ewch i **[moneyhelper.org.uk/buddsoddiadau-pensiwn](https://moneyhelper.org.uk/buddsoddiadau-pensiwn)**

## Beth sy'n digwydd i'm pensiwn ar ôl i mi farw?

Tan 6 Ebrill 2027, ni fydd unrhyw arian sydd ar ôl yn eich pensiwn yn cael ei gyfrif at ddibenion Treth Etifeddiaeth. Ond efallai y bydd eich buddiolwyr yn talu Treth Incwm pan fyddant yn derbyn yr arian, yn dibynnu ar ba mor hen ydych chi pan fyddwch chi'n marw.

Os byddwch chi'n marw cyn 75 oed, fel arfer gellir etifeddu unrhyw arian sy'n weddill yn eich pensiwn cyfraniadau diffiniedig yn ddi-dreth cyn belled â:

- telir yr arian i'ch buddiolwyr enwebedig o fewn dwy flynedd i'ch darparwr pensiwn ddod yn ymwybodol o'ch marwolaeth
- na wnaethoch chi drosglwyddo'ch pensiwn yn y ddwy flynedd cyn i chi farw os oeddech chi'n sâl – gellid gweld hyn fel trosglwyddiad gwerth ac yn destun Treth Etifeddiaeth
- nid yw'r cyfanswm a etifeddwyd o'ch holl bensiynau ac a gymerir fel cyfandaliadau yn uwch na'r cyfandaliad a'r lwfans budd-dal marwolaeth (LSDBA).

Mae'r LSDBA yn £1,073,100 i'r rhan fwyaf o bobl. Mae'n cyfrif yr holl gyfandaliadau di-dreth a gymerir o'ch pensiwn. Mae hyn yn golygu y gallai'ch terfyn fod yn is os ydych chi eisoes wedi cymryd arian di-dreth. Fel arfer, bydd eich buddiolwyr yn talu Treth Incwm ar unrhyw symiau uwchlaw'r lwfans.

Ym mhob achos arall, gan gynnwys os byddwch chi'n marw ar ôl 75 oed, fel arfer ni ellir etifeddu eich pensiwn yn ddi-dreth. Fel arfer, caiff y swm a etifeddwyd ei ychwanegu at incwm arall eich buddiolwyr i gyfrifo faint o Dreth Incwm sy'n ddyledus.

O fis Ebrill 2027 ymlaen, efallai y bydd unrhyw arian sydd ar ôl yn eich pensiwn yn cael ei gyfrif wrth gyfrifo Treth Etifeddiaeth.

Am ragor o wybodaeth, Ewch i **[moneyhelper.org.uk/marwolaeth-a-threthi](https://moneyhelper.org.uk/marwolaeth-a-threthi)**

## Beth sy'n digwydd i flwydd-dal ar ôl i mi farw?

Fel arfer, bydd blwydd-dal yn rhoi'r gorau i dalu pan fyddwch chi'n marw, oni bai:

- rydych chi'n cymryd blwydd-dal oes ar y cyd – mae hyn yn talu cyfran o'ch incwm i'r rhai sy'n ddibynnol arnoch chi ar ôl i chi farw, a/neu
- rydych chi'n ychwanegu un neu fwy o amddiffyniadau dewisol:
  - **amddiffyniad gwerth** – mae hyn yn talu cyfandaliad i'ch buddiolwyr os yw'ch blwydd-dal wedi talu llai nag y costiodd i chi pan fyddwch chi'n marw
  - **cyfnod gwarant** – mae hyn yn talu incwm i'ch buddiolwyr am hyd at 30 mlynedd ar ôl i chi farw, neu gyfandaliad o'r gwerth hwnnw
  - **'gyda chyfran'** – mae hyn yn talu cyfandaliad i'ch buddiolwyr am y cyfnod rhwng eich dyddiad talu diwethaf a'r diwrnod y buoch farw.

Er enghraifft, os oedd gennych amddiffyniad gwerth ar flwydd-dal o £50,000 a dim ond £30,000 mewn incwm a gawsoch ohono pan fuoch farw, byddai eich buddiolwr yn derbyn £20,000.

Os oedd gennych gyfnod gwarant o 10 mlynedd ac y buoch farw ar ôl 7 mlynedd, byddai eich buddiolwyr naill ai'n derbyn y 3 blynedd sy'n weddill fel cyfandaliad neu fel incwm rheolaidd.

Os oedd gennych chi 'gyda chyfran' ac os buoch chi farw 10 diwrnod ar ôl i'ch blwydd-dal gael ei dalu allan ddiwethaf, byddai'ch buddiolwr yn derbyn taliad am yr incwm blwydd-dal sy'n daladwy am y 10 diwrnod hynny.

### Fel arfer, byddwch yn cael incwm is os ydych yn ychwanegu amddiffyniadau dewisol

Bydd angen i chi ddewis unrhyw amddiffyniadau dewisol pan fyddwch chi'n cymryd y blwydd-dal allan am y tro cyntaf. Fel arfer, byddwch yn cael incwm is am bob amddiffyniad rydych chi'n ei ychwanegu gan ei bod hi'n fwy tebygol y bydd yr incwm yn talu allan am gyfnod hirach.

Os dewiswch gyfnod gwarant a blwydd-dal oes ar y cyd, fel arfer gallwch ddewis i'r taliadau i'ch buddiolwyr gael eu talu allan:

- ar yr un pryd, a elwir yn orgyffwrdd
- ar ôl i'r cyfnod gwarant ddod i ben, wedi'i alw heb orgyffwrdd.

Onid byddwch yn ymwybodol efallai na fyddwch bob amser yn elwa o ychwanegu amddiffyniadau. Er enghraifft:

- ni fydd polisi oes ar y cyd yn talu os bydd eich dibynnydd yn marw o'ch blaen chi
- bydd eich blwydd-dal yn dal i ddod i ben os byddwch chi'n marw ar ôl i gyfnod gwarant ddod i ben.

# Cam 6: Chwilio o gwmpas i ddod o hyd i'r fargen orau

Nid oes angen i chi lynu wrth eich darparwr pensiwn presennol i ddechrau cymryd eich arian. Gwiriwch bob amser a allwch chi gael borgen well gan ddarparwr gwahanol.

Ceisiwch ddechrau siopa o gwmpas o leiaf 6 mis cyn i chi eisiau cymryd eich arian.

## Gwiriwch fargeinion eich darparwr presennol

Dechreuwch drwy wirio beth allech chi ei gael drwy aros gyda'ch darparwr pensiwn presennol, gan gynnwys:

- a yw eich darparwr yn cynnig yr opsiwn yr hoffech chi ei gael
- faint o dwf incwm neu fuddsoddiad y gallech ei gael – fel arfer gallwch ofyn iddyn nhw am ddyfynbrisiau
- a oes unrhyw gosbau am drosglwyddo i ddarparwr gwahanol, fel ffi ymadael
- a oes gennych unrhyw nodweddion arbennig, fel
  - cyfraddau blwydd-dal gwarantedig – gallai hyn ganiatáu i chi drosi eich pensiwn yn incwm rheolaidd gwarantedig uwch nag y gallech ei gael yn rhywle arall
  - oedran pensiwn gwarchodedig – gallai hyn ganiatáu i chi gael mynediad at eich pensiwn yn gynharach nag y gallai cynlluniau eraill
  - bonws 'gydag elw' – mae hwn yn daliad ychwanegol y gallech ei gael os byddwch yn aros i gael mynediad at eich pensiwn ar ôl oedran penodol.

## Cymharwch gynlluniau a darparwyr pensiwn i ddod o hyd i'r fargen orau

Nesaf, gwiriwch a allwch chi gael borgen well gan ddarparwr gwahanol. Mae sut i gymharu yn dibynnu ar y ffordd yr hoffech chi gymryd eich arian.

### Sut i gymharu darparwyr tynnu pensiwn i lawr

I ddod o hyd i ddarparwyr tynnu arian i lawr sy'n cynnig gwahanol ffyrdd o gymryd eich arian ac opsiynau buddsoddi parod, gallwch:

- mynd i [moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-tynnu-lawr-pensiwn](https://moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-tynnu-lawr-pensiwn) i ddefnyddio ein hoffer yn gymharu diduedd
- chwilio â llaw am ddarparwyr pensiwn sy'n cynnig tynnu i lawr
- talu cynghorydd ariannol i argymhell cynnyrch i chi (gweler tudalen 27).

Wrth gymharu, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio:

- a yw'r darparwr yn cynnig y ffordd yr hoffech chi gymryd eich arian
- sut y byddai eich arian yn cael ei fuddsoddi
- a allwch chi ddewis eich opsiynau buddsoddi pensiwn eich hun
- yr hyn y byddai angen i chi ei dalu – gan gynnwys ffi reoli flynyddol a thaliadau bob tro y byddwch yn cymryd arian.

Os yw darparwr newydd yn cynnig bargaen well, ystyriwch drosglwyddo eich pensiwn. Ond gwiriwch bob amser a fyddwch chi'n colli unrhyw fudd-daliadau cyn newid i ffwrdd.

Dysgwch ragor yn **[moneyhelper.org.uk/trosglwyddiadau-pensiwn](https://moneyhelper.org.uk/trosglwyddiadau-pensiwn)**

### **Sut i gymharu darparwyr blwydd-daliadau**

I weld beth fydd gwahanol ddarparwyr yn ei gynnig, gallwch:

- mynd i **[moneyhelper.org.uk/cy/guaranteed-income](https://moneyhelper.org.uk/cy/guaranteed-income)** i ddefnyddio ein hofferyn cymharu blwydd-daliadau diduedd
- cael dyfynbrisiau drwy gysylltu â gwahanol ddarparwyr blwydd-daliadau eich hun – mae llawer o gwmnïau yswiriant a darparwyr pensiwn yn gwerthu blwydd-daliadau
- talu cynghorydd ariannol i argymell cynnyrch i chi – efallai y bydd cynghorwyr yn gallu cael mynediad at gyfraddau blwydd-dal gwell nag sydd ar gael i chi'n uniongyrchol (gweler tudalen 27).

Mae faint o incwm y gallwch ei gael yn dibynnu ar y gyfradd blwydd-dal a gynigir i chi. Er enghraifft, os gwnaethoch chi drosi cronfa bensiwn gwerth £100,000, byddai cyfradd blwydd-dal o 5% yn rhoi incwm blynyddol o £5,000 i chi.

Mae cyfraddau blwydd-dal yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys:

- eich oedran a'ch iechyd – efallai y byddwch yn gymwys i gael cyfraddau uwch os oes gennych iechyd gwael neu gyflwr meddygol
- am faint o amser yr hoffech i'r incwm barhau
- os hoffech chi gael cyfandaliad (gwerth aeddfedrwydd) ar ddiwedd unrhyw gyfnod penodol
- yr opsiynau a ddewiswch, gan gynnwys:
  - incwm sy'n cynyddu neu'n aros yr un fath bob blwyddyn
  - a fydd eich blwydd-dal yn parhau i gael ei dalu i rywun arall ar ôl i chi farw.

Mae blwydd-daliadau sy'n parhau i dalu ar ôl i chi farw, fel blwydd-dal ar y cyd neu un gyda 'chyfnod gwarant' neu 'amddiffyniad gwerth', fel arfer yn helpu i gynnal eich dibynnyddion byw.

I gael rhagor o wybodaeth am eich opsiynau, Ewch i **[moneyhelper.org.uk/blwydd-daliadau](https://moneyhelper.org.uk/blwydd-daliadau)**

## Sut i gymharu darparwyr sy'n caniatáu cyfandaliadau lluosog

Nid oes gwefannau cymharu ar gyfer darparwyr pensiwn yn bodoli, felly fel arfer bydd angen i chi naill ai:

- chwilio â llaw am ddarparwyr pensiwn sy'n caniatáu cyfandaliadau lluosog
- talu cynghorydd ariannol rheoleiddiedig i argymhell darparwr a chynnyrch i chi (gweler tudalen 27).

Gwiriwch bob amser am unrhyw gyfyngiadau gan y gallai rhai darparwyr:

- codi ffi bob tro y byddwch yn cymryd cyfandaliad
- cyfyngu ar faint y gallwch ei gymryd bob tro.

Os yw darparwr newydd yn cynnig bargaen well, ystyriwch drosglwyddo eich pensiwn. Ond gwiriwch bob amser a fyddwch chi'n colli unrhyw fudd-daliadau cyn newid i ffwrdd. Dysgwch ragor yn **[moneyhelper.org.uk/trosglwyddiadau-pensiwn](https://moneyhelper.org.uk/trosglwyddiadau-pensiwn)**

## Sut i gymharu darparwyr sy'n caniatáu taliad sengl

Os ydych chi eisiau cymryd eich pensiwn mewn un tro a bod eich darparwr presennol yn caniatáu hyn heb unrhyw gosbau, fel arfer nid oes angen cymharu darparwyr eraill.

Os nad yw eich darparwr presennol yn caniatáu i chi neu os oes ganddo gosbau, gallwch:

- chwilio â llaw am ddarparwyr pensiwn sy'n caniatáu i chi dynnu arian allan mewn un tro
- talu cynghorydd ariannol rheoleiddiedig i argymhell darparwr a chynnyrch i chi (gweler tudalen 27).

### Gwiriwch bob amser fod unrhyw ddarparwr wedi'i awdurdodi

Gallai sgamwyr geisio eich targedu trwy greu hysbysebion neu gysylltu â chi yn addo enillion uchel neu fynediad cynnar at eich pensiwn. Efallai bod ganddyn nhw wefannau proffesiynol hefyd.

Er mwyn helpu i'ch amddiffyn, Ewch i **[fca.org.uk/firm-checker](https://fca.org.uk/firm-checker)** i wneud yn siŵr bod unrhyw ddarparwr rydych chi'n edrych arno wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

# Cam 7: Dechrau cymryd eich pensiwn pan fyddwch chi'n barod

Pan fyddwch chi'n barod i ddechrau cymryd eich pensiwn, bydd angen i chi gysylltu â'ch darparwr pensiwn a dweud wrthyn nhw beth hoffech chi ei wneud.

Gallai hyn gynnwys trosglwyddo eich pensiwn i ddarparwr gwahanol os nad ydyn nhw'n cynnig yr opsiwn yr hoffech chi ei gael.

## Peidiwch byth â defnyddio eich pensiwn os ydych chi'n teimlo dan bwysau neu'n ansicr

Peidiwch â chael mynediad at eich pensiwn na throsglwyddo unrhyw arian i ddarparwr pensiwn oherwydd galwad oer, ymweliad, neges e-bost neu neges destun. Mae'n debygol ei fod yn sgam sydd wedi'i chynllunio i ddwyn eich arian.

Efallai y byddwch chi'n colli'ch holl gynilion ymddeol a gorfod talu bil treth drud.

Os ydych chi'n credu eich bod chi'n cael eich targedu neu os ydych chi eisoes wedi lofnodi rhywbeth nad ydych chi'n siŵr amdano nawr:

- cysylltwch â'ch darparwr pensiwn a gofynnwch iddyn nhw beidio â throsglwyddo unrhyw arian
- adroddwch am y sgam posibl:
  - yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon yn **reportfraud.police.uk** neu ffoniwch 0300 123 2040
  - yn yr Alban i Heddlu'r Alban drwy ffonio 101.

Os ydych chi wedi colli arian, gallwch chi:

- ffonio ein huned troseddau ariannol a sgamiau ar 0800 011 3797
- archebu apwyntiad colli pensiwn drwy e-bostio **virtual.appointments@moneyhelper.org.uk**

Mae ein llinellau ar agor o 9am i 5pm amser y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ar gau ar wyliau banc).

## Gwiriwch eich bod yn talu'r swm cywir o dreth

Pan delir eich pensiwn gyntaf, efallai y bydd cod treth dros dro neu frys yn cael ei ddefnyddio. Gall hyn olygu bod y swm anghywir o dreth yn cael ei dynnu i ffwrdd.

Os ydych chi'n credu eich bod wedi gordalu treth, Ewch i **gov.uk/hawlio-ad-daliad-treth** neu ffoniwch 0300 200 3300. Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 6pm amser y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ar gau ar wyliau banc).

Efallai y bydd CThEF hefyd yn ei dalu'n ôl i chi'n awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn dreth.

## Gwiriwch werth unrhyw bensiwn sy'n parhau i gael ei fuddsoddi yn rheolaidd

Os bydd unrhyw ran o'ch pensiwn yn parhau i fod wedi'i fuddsoddi, gall ei werth godi a gostwng o ran gwerth nes i chi gymryd yr arian. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n bwysig gwirio'n rheolaidd pa mor dda mae'n perfformio.

Os yw eich pensiwn yn tyfu ar gyfradd arafach na'r disgwyl, efallai yr hoffech ystyried:

- lleihau'r swm rydych chi'n bwriadu ei gymryd bob tro
- dewis ffordd wahanol o gymryd eich arian
- newid sut mae eich pensiwn yn cael ei fuddsoddi.

Mae hefyd yn werth cymharu darparwyr pensiwn o leiaf unwaith y flwyddyn i weld a fyddai'n well i chi drosglwyddo'ch pensiwn i rywle arall.

## Hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth

Nid yw eich Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei dalu'n awtomatig, mae angen i chi ei hawlio.

Tua 4 mis cyn i chi gyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, dylech dderbyn cod gwahoddiad drwy'r post. Os nad ydych chi wedi'i dderbyn 3 mis cyn hyn, neu os ydych chi wedi'i golli, Ewch i **get-state-pension.service.gov.uk/request-invitation-code**.

Yna gallwch ddefnyddio'ch cod gwahoddiad i wneud cais pan fyddwch chi'n barod – does dim terfyn amser. Efallai y byddwch yn cael mwy o arian yn eich Pensiwn y Wladwriaeth os byddwch yn gohirio eich hawliad.

## Os ydych chi'n byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban

Gallwch wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth:

- ar-lein yn **gov.uk/cael-eich-pensiwn-y-wladwriaeth**
- trwy ffonio 0800 731 7898.

Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 6pm amser y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ar gau ar wyliau banc).

## Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon.

Gallwch wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth:

- ar-lein yn **[nidirect.gov.uk/services/get-your-state-pension](https://nidirect.gov.uk/services/get-your-state-pension)**
- trwy ffonio 0808 100 2658.

Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 4pm amser y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

## Gwiriwch a allwch hawlio Credyd Pensiwn

Os oes gennych incwm isel, efallai y bydd Credyd Pensiwn yn cael ei ychwanegu gan ddibynnu ar eich amgylchiadau.

Mae hawlio Credyd Pensiwn hefyd yn golygu y byddwch yn gymwys i gael cymorth arall, fel trwydded deledu am ddim a gostyngiadau ar eich biliau. Gallai hyn olygu eich bod yn well eich byd o filoedd o bunnoedd y flwyddyn.

Ewch i **[moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-budd-daliadau](https://moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-budd-daliadau)** i weld beth rydych chi'n gymwys i'w gael neu ffoniwch y llinell gymorth Credyd Pensiwn.

**Os ydych chi'n byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban**, ffoniwch 0800 99 1234.

Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 6pm amser y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon**, ffoniwch 0808 100 6165.

Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 4pm amser y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener.



# Cael apwyntiad Pension Wise am ddim i gael arweiniad diduedd

Mae apwyntiad Pension Wise am ddim yn gweithio ochr yn ochr â'r canllaw hwn i esbonio'r opsiynau ar gyfer cymryd eich pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'n ddiduedd ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth.

## Beth mae apwyntiad yn ei gynnwys

Fe gewch chi wybod:

- pryd y gallwch gael mynediad at eich cronfeydd pensiwn
- y gwahanol ffyrdd y gallwch chi gymryd arian o'ch pensiwn
- sut mae pob opsiwn fel arfer yn cael ei drethu
- sut i nodi ac osgoi sgamiau
- beth sy'n digwydd i'ch pensiwn pan fyddwch chi'n marw.

Ar ôl eich apwyntiad, fe gewch restr o'r camau nesaf y gallwch eu cymryd. Ni allwn argymhell cynhyrchion penodol na rhoi cyngor ar yr hyn sydd orau i chi ei wneud.

## Pwy sy'n gymwys

Gallwch gael apwyntiad os oes gennych bensiwn cyfraniadau diffiniedig yn y DU ac os ydych:

- 50 neu drosodd
- o dan 50 ac:
  - wedi etifeddu pensiwn rhywun arall
  - yn ymddeol yn gynnar oherwydd ieuchyd gwael, neu
  - mae eich cynllun yn caniatáu i chi gymryd eich pensiwn cyn 55 oed.

Does dim ots faint yw gwerth eich pensiwn.

**Mae 94% o'n cwsmeriaid yn fodlon ar eu hapwyntiad**

**Mae 93% yn argymhell Pension Wise i eraill**

## Sut i gael apwyntiad

Gallwch:

- cael apwyntiad ar-lein unrhyw bryd
- archebu dyddiad ac amser i siarad ag un o'n harbenigwyr pensiwn
- cael mwy nag un apwyntiad os hoffech chi.

Ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise** neu ffonio i archebu ar 0800 011 3797. Os ydych chi y tu allan i'r DU, ffoniwch +44 20 7932 5780.

Rydym ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm. Ar gau ar wyliau banc.

## Sut i baratoi ar gyfer eich apwyntiad

Er mwyn i ni allu deall eich cynlluniau ar gyfer ymddeol, byddwn fel arfer yn gofyn i chi am eich pensiynau a chyllid arall.

Fel arfer, byddwch yn elwa mwy o apwyntiad Pension Wise os, cyn eich apwyntiad, byddwch yn:

1. Gofyn i bob un o'ch darparwyr pensiwn:

- faint yw gwerth eich pensiwn ar hyn o bryd
- os oes gan eich pensiwn unrhyw nodweddion arbennig, fel gwerth cronfa neu gyfradd blwydd-dal gwarantedig.

2. Gwirio eich rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth, naill ai:

- ar-lein yn **gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth**
- drwy ffonio 0800 731 0175 neu +44 191 218 3600 os ydych chi y tu allan i'r DU. Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 6pm amser y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

3. Cael manylion eich cyllid arall, fel:

- cynilion a buddsoddiadau
- dyledion ac ad-daliadau – fel morgais a benthyciadau.

4. Meddyliwch am eich cynlluniau ar gyfer ymddeoliad, fel:

- pryd hoffech chi roi'r gorau i weithio
- pa fath o incwm pensiwn yr hoffech ei gael.

# Ystyriwch dalu am gyngor ariannol rheoleiddiedig

Gall cynghorydd ariannol rheoleiddiedig eich helpu i benderfynu beth sydd orau i chi a'ch arian, gan gynnwys pryd a sut i gael mynediad at eich pensiwn. Gallai hyn olygu bod gennych fwy o arian yn y tymor hir.

Bydd cynghorydd ariannol da yn:

- rhoi cyfarfod cychwynnol am ddim i chi i drafod eich anghenion
- rhoi cynllun wedi'i deilwra i chi sy'n addas i'ch amgylchiadau a'ch nodau
- argymhell cynhyrchion a gwasanaethau addas
- eich helpu i osgoi camgymeriadau drud
- gwneud yn siŵr eich bod yn manteisio ar gyfleoedd, fel lwfansau treth.

## Cynghorwyr ariannol annibynnol a chyfyngedig

Mae dau brif fath o gynghorydd ariannol:

- **Gall cynghorwyr ariannol annibynnol (IFAs)** chwilio'r farchnad gyfan i argymhell cynnyrch neu wasanaeth i chi, gan gynnwys pob math o fuddsoddiadau.
- **Fel arfer, mae cynghorwyr cyfyngedig** yn rhoi cyngor ar fath penodol o gynnyrch neu faes (megis ymddeol) a/neu'n argymhell cynhyrchion gan nifer penodol o ddarparwyr.

Bydd y ddau fath o gyngor yn cael eu teilwra i chi, felly ni fydd ansawdd y cyngor yn cael ei effeithio.

## Sut i chwilio am gynghorydd ariannol rheoleiddiedig

Mae cyfeiriaduron ar-lein yn caniatáu i chi chwilio am gynghorwyr ariannol rheoleiddiedig a hidlo yn ôl lleoliad, math o gyngor a dull cysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **[vouchedfor.co.uk](https://vouchedfor.co.uk)**
- **[unbiased.co.uk](https://unbiased.co.uk)**
- **[societyoflaterlifeadvisers.co.uk/](https://societyoflaterlifeadvisers.co.uk/)**
- **[thefts.org](https://thefts.org)** (Cymdeithas Cyllid Personol).

Gallech hefyd:

- gofyn am argymhellion personol os yw rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo eisoes wedi talu am gyngor
- gwiriwch a oes gan eich cyflogwr, undeb llafur neu sefydliad arall rydych chi'n aelod ohono drefniadau arbennig gyda chwmnïau cynghori.

I wirio bod y cynghorydd (neu'r cwmni y mae'n gweithio iddo) wedi'i awdurdodi i roi cyngor, defnyddiwch Gofrestr Gwasanaethau Ariannol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn **[register.fca.org.uk](https://register.fca.org.uk)**

Bydd hyn hefyd yn rhestru eu manylion cyswllt dilys.

Am ragor o gymorth i ddod o hyd i gyngor ariannol, Ewch i **[moneyhelper.org.uk/cyngor-ymddeoliad](https://moneyhelper.org.uk/cyngor-ymddeoliad)**

## **Rhaid dweud wrthyhch faint fydd y cyngor yn ei gostio cyn i chi ymrwymo**

Gall cost cyngor ariannol a sut y codir tâl arnoch amrywio, felly mae bob amser yn well cael dyfynbrisiau lluosog gan wahanol gynghorwyr neu gwmnïau.

Gallai cynghorydd godi:

- cyfradd fesul awr
- ffi sefydlog am adolygiad neu gynllun untro
- ffi yn seiliedig ar werth eich pensiwn neu bortffolio buddsoddi.

Cyn i chi ymrwymo i gynghorydd, rhaid iddyn nhw ddweud wrthyhch chi:

- sut mae eu taliadau'n gweithio
- faint fyddwch chi'n ei dalu
- os oes costau parhaus, fel ffioedd am reoli eich pensiynau neu fuddsoddiadau yn y tymor hir.

## **Gwiriwch a yw eich darparwr pensiwn yn caniatáu i chi ddefnyddio'r lwfans cyngor pensiynau**

Mae'r lwfans cyngor pensiynau yn caniatáu i chi gymryd hyd at £500 yn ddi-dreth o'ch pensiwn i dalu am gyngor ymddeoliad. Gallwch wneud hyn unwaith y flwyddyn dreth (6 Ebrill i 5 Ebrill), hyd at 3 gwaith yn gyfan gwbl.

## Os cewch gyngor gwael, gallwch gwyno a gofyn am iawndal

Mae defnyddio cynghorydd ariannol rheoleiddiedig yn golygu y gallwch gwyno a gofyn am iawndal os yw'r cyngor a roddwyd i chi yn troi allan i fod yn anaddas.

Ni allwch gwyno os nad yw eich buddsoddiadau wedi perfformio fel yr oeddech wedi gobeithio, oni bai eich bod wedi cael gwybod eu bod yn risg isel a'u bod wedi troi allan i fod yn risg uchel – er enghraifft.

Gallai cyngor anaddas gynnwys:

- cael gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol
- eich argymhellion cytunedig heb eu gweithredu – neu'n hwyrach nag a addawyd
- camgymeriadau'n cael eu gwneud.

Wrth gwyno, mae'n syniad da cynnwys copi o'r argymhellion ysgrifenedig yr anfonodd eich cynghorydd atoch ac egluro pam eich bod chi'n teimlo bod y cyngor yn anaddas.

Am gymorth cam wrth gam, Ewch i **[moneyhelper.org.uk/hawlio-iawndal](https://moneyhelper.org.uk/hawlio-iawndal)**

### **Peidiwch byth â chymryd cyngor oherwydd galwad oer, neges e-bost neu neges destun**

Gallai twyllwr eich targedu drwy gynnig enillion ariannol cyflym neu uchel – gan roi pwysau arnoch i weithredu'n gyflym yn aml. Gallai hyn fod drwy hysbyseb ar gyfryngau cymdeithasol neu drwy ffonio, anfon e-bost neu anfon neges destun atoch.

Peidiwch byth â gwneud unrhyw daliadau na chael mynediad at unrhyw un o'ch buddsoddiadau na'ch pensiynau oherwydd y math hwn o gyswllt. Mae'n debygol o fod yn sgam a gallech golli'ch arian a wynebu tâl treth mawr.



# Cysylltiadau defnyddiol

## HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Ewch i ni yn [moneyhelper.org.uk/cy](https://moneyhelper.org.uk/cy)

Neu cysylltwch â ni drwy:

### Ffôn

Arweiniad Arian a Phensiynau DU: **0800 011 3797**

Os ydych chi y tu allan i'r DU: **+44 20 7932 5780**

Llun – Gwe 9am i 5pm

### Ar-lein

[moneyhelper.org.uk/cy/contact-us](https://moneyhelper.org.uk/cy/contact-us)

### Cymunedau ar-lein

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am gymorth:

[moneyhelper.org.uk/cymunedau-ar-lein](https://moneyhelper.org.uk/cymunedau-ar-lein)

## Dod o hyd i gynghorydd ariannol

Gall cynghorydd ariannol rheoleiddiedig eich helpu i gynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Am gymorth i ddod o hyd i gynghorydd pensiwn neu ymddeoliad, Ewch i [moneyhelper.org.uk/cyngor-ymddeoliad](https://moneyhelper.org.uk/cyngor-ymddeoliad)

## Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)

I wirio Cofrestr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu i adrodd am hysbysebion ariannol neu hyrwyddiadau eraill sy'n gamarweiniol.

Llinell gymorth defnyddwyr: 0800 111 6768

Typetalk: 1800 10207 066 1000

[fca.org.uk/register](https://fca.org.uk/register)

## Gwybodaeth a chynghor am pensiynau

Am fanylion eich cynllun pensiwn y gweithle, siaradwch â'ch gweinyddwr pensiynau, rheolwr pensiynau neu ymddiriedolwyr pensiwn yn y gwaith.

### Pension Wise

Mae apwyntiad Pension Wise am ddim yn egluro'r opsiynau ar gyfer cymryd arian o'ch pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'n ddiduedd ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth.

Gallwch gael apwyntiad os oes gennych bensiwn cyfraniadau diffiniedig yn y DU ac os ydych:

- 50 neu drosodd
- o dan 50 ac:
  - wedi etifeddu pensiwn rhywun arall
  - yn ymddeol yn gynnar oherwydd iechyd gwael, neu
  - mae eich cynllun yn caniatáu i chi gymryd eich pensiwn cyn 55 oed.

Ewch i **[moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise](https://moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise)** neu ffoniwch 0800 011 3797 rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ar gau ar wyliau banc.

### GOV.UK

Cyfriflenni ac ymholiadau Pensiwn y Wladwriaeth  
0800 731 0175

**[gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth](https://gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth)**

Y Gwasanaeth Orlhain Pensiwn  
0800 731 0175

**[gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn](https://gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn)**

## Cwynion a iawndal

### Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

0800 023 4567 neu 0300 123 9123

**[financial-ombudsman.org.uk](https://financial-ombudsman.org.uk)**

### Yr Ombwdsmon Pensiynau

Ar gyfer cwynion am gynllun pensiwn y gweithle neu bensiwn personol.  
0800 917 4487

**[pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg](https://pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg)**

**Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau**

This image shows a single sheet of white paper with horizontal blue or grey ruling lines. The lines are evenly spaced and run across the width of the page. There is no handwriting or other markings on the paper.

[illegible]



Cynhyrchir y canllaw hwn gan HelpwrArian ac mae hefyd ar gael yn Saesneg. I weld ein cyfres lawn o ganllawiau ac i archebu copïau Ewch i **[moneyhelper.org.uk/canllawiau-print-am-ddim](https://moneyhelper.org.uk/canllawiau-print-am-ddim)**

Cymraeg

### Cysylltu â ni

Arweiniad arian a phensiynau **0800 011 3797**  
Llun – Gwe 9am i 5pm

Relay UK **18001 0800 011 3797**  
Llun – Gwe 9am i 5pm

Ar-lein **[moneyhelper.org.uk/cyswllt](https://moneyhelper.org.uk/cyswllt)**

Rhoi adborth ar y canllaw hwn:  
**[moneyhelper.org.uk/adborth](https://moneyhelper.org.uk/adborth)**

**Helpwr  
Arian**



**Plain Numbers**  
Clear, Fair, Never misleading.

Mae galwadau o'r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

### Fformatau hygyrch

Os hoffech chi gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2026). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

© **HelpwrArian** Ebrill 2026

Cyf: HTYP\_Apr26\_Ed1\_Welsh